**CYFARFOD Y CYNGOR,** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 16eg Tachwedd 2022, fel cyfarfod hybrid gan gychwyn am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, A. R. James, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 70. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau ar ran y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, S. Feeney, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones a *B. Mellor.

*methu â chysylltu

## 71. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir (copiau'n amgaeëdig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 19eg Hydref 2022 | - | Rhifau Cofnod | 57-69 |

Nododd Clerc y Dref bod cofnod rhif 68 yn ymddangos ddwywaith ac y byddai'n cael ei newid i ddarllen 68A a 68B.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | - | 19eg Hydref 2022 | - | Rhifau Cofnod | 25-27 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyll;gor Cynllunio | - | 2il Tachwedd 2022 | - | Rhifau Cofnod | 28-30 |

Cyigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 2il Tachwedd 2022 | - | Rhifau Cofnod | 30-40 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

## 72. CYFLWYNIAD: RHIANNON WYN HUGHES MBE, FRSA WICKED WALES GWYL FFILMIAU IEUENCTID RYNGWLADOL – HWB CREADIGOL I'R RHYL

Ymhellach i gofnod rhif 26 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 2il Tachwedd 2022, croesawodd y Maer Rhiannon Wyn Hughes MBE a Hannah Rowan o Brosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl a'u gwahodd i annerch yr aelodau.

Diolchodd Ms Hughes i'r Cyngor Tref am gael Ms Rowan a hithau i annerch y cyfarfod a dweud bod Wicked Wales a Phrosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl wedi gweithio gyda'i gilydd am rai blynyddoedd nawr ac eisiau gweithio'n agosach ar y.

Aeth Ms Hughes yn ei blaen i ddweud:

- Roeddent yn dod at y Cyngor Tref yn gyntaf gan fod ei gynghorwyr yn cynrychioli pob ward yn y Rhyl ac roeddynt yn gofyn am gyfranogiad y Cyngor Tref a'u cyngor yn y cyfnod cynnar hwn.

- Roeddent wedi gweithio gyda phobl ifanc am 30 o flynyddeodd nawr ac yn ddiweddar wedi symud i ffilm a chyfryngau, ar ôl lansio gwyl ffilmiau.

- mae ffilm a chyfryngau yn ddiwydiant gyda phrinder sgiiau cronig ond sydd â swyddi sy'n talu'n dda, ac felly mae'n beth amlwg o ran darparu cyfleoedd da i boblo ifanc lleol.

- rydym o ddifrif am y prosiect hwn ac wedi sicrhau cyllid i gomisiynu gwasanaethau cwmni ymgynghorol a fydd yn adrodd yn fuan iawn.

- byddwn yn hysbysu'r Cyngor Tref o bob datblygiad, ond hoffem ofyn sut gall y Cyngor Tref chwarae rhan, ynghyd â llawer o grwpiau eraill yn y Rhyl.

- Mae Cymru yn mwynhau llwyddiant mawr mewn teledu a ffilm ar hyn o bryd ac mae gan y Rhyl gymaint o dalent ag unrhyw ardal arall, ond ddim cyfle cyfartal a dyma lle rydym ni yn bwriadu gweithredu.

- Rydym yn chwilio am leoliad i fod yn siop un alwad ar gyfer pob math o berfformiad. Dim byd crand, dim ond lle o faint da i gynnwys y celfyddydau, gan gynnwys bandiau a gemio a lle i gyfarfod gyda'r diwydiant a datblygu.

- Bu i ni lansio stiwdios rhithwir ym mis Ebrill eleni a gallwn weld bod lefel y talent a'r angen yn real iawn.

- Rydym wedi gwneud ychydig o ffilmiau ac mae un wedi ennill gwobr rhaglen ddogfen yn Wrecsam ac ar y rhestr fer ar gyfer cydnabyddiaeth yn y DU, gan hyrwyddo'r Rhyl yn genedlaethol ac yn rhynwgladol.

- Neuadd y Dref yn y Rhyl yw ein cartref ar gyfer yr wyl. Roedd gan wyl eleni rai gwesteion o Serbia a Sweden dros gyfnod o bedwar diwrnod a chafwyd rhyw £10,000 yn dod i mewn i economi'r Rhyl.

- Rydym yn defnyddio Neuadd y Dref ac eiddo Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i wneud hyny, ond os ydych eisiau gwneud hyn hyn iawn, yna mae angen lle mawr hyblyg arnom fel cyfleustra yng Ngogledd Cymru.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan yr aelodau, dywedodd Ms Hughes a Ms Rowen:

- Eu bod yn chwilio am le a allai gynnwys lle perfformiad gyda 50 o seddau, man lluniaeth ar gyfer rhwydweithio, stiwdios bach ar gyfer golygu a recordio ac i bobl ddod i mewn i gwynhau adloniant fforddiadwy.

- Y gobaith oedd bod pobl greadigol eraill sydd ar hyn o  bryd yn gweithio ar eu pennau eu hunain, yn dod at ei gilydd i weithio'n gydweithredol.

- Yn ystod y cyfnod clo, codais £80,000 ar gyfer y Theatr Fach yn y Rhyl, a ddefnyddiwyd yn bennaf i wella'r gwres. Roedd gennym swyddfa yno ond rhaid oedd gadael oehrwydd bod y theatr wedi penderyfnu canolbwyntio ar theatr yn hytrach a ffilm ac mae'r theatr yn gwneud yn dda nawr, rhywbeth rydym yn falch onono.

- Rydym wedi cysylltu â'r Scala ond yn anffodus nid oes bylchau yn eu rhaglen ffilmiau i'n cynnwys ni.

- Rydym yn goroesi drwy greu a defnyddio gweithwyr llawrydd, hanner dwsin oherwydd y gwaith rydym yn ei wneud ond byddai'n well gennym feithrin ein gweithlu ein hunain hyn yr ardal hon.

- Rydym yn chwilio am ganolfan a all weithio gyda'r diwydiant ac felly nid yw cyfleusterau ysgol yn bosibl a byddent ond ar gael gyda'r nos.

- Roeddem yn siarad gydag S4C y bore hwn sy'n dangos ein gwyl a'r gwaith rydym wedi ei wneud gyda bachgen ifanc lleol a Phlant Mewn Angen.

- Byddent yn ystyried yr holl awgrymiadau ar gyfer lleoliadau posibl addas.

Diolchodd y Maer i Ms Hughes a Ms Rowan am eu hamser a dymunodd yn dda iawn iddynt ar gyfer yr hyn sy'n swnio fel prosiect gwych.

## 73. <u>ADRODDIAD Y MAER</u>

Cyfeiriodd y Maer at ddigwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer ar ran y Cyngor y mis diwethaf (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), yn enwedig y Goelcerth a'r Arddangosfa Dân Gwyllt Gymunedol, a oedd yn noson lwyddiannus iawn.

Dywedodd y Dirprwy Faer bod y gwasanaeth Diwrnod y Cadoediad yn y Rhyl wedi gweld presenoldeb da a'i bod wedi mwynhau lansiad Gwyl Ffilmiau Ryngwladol Ieuenctid Wicked Wales a'r derbyniad yn Neuadd y Dref.

Ychwanegodd y Dirprwy Faer e bod wedi derbyn llechen Gymreig fel rhodd yn y lansiad, a byddai'n ei gadael ym Mharlwr y Maer.

74. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Canda Copiers | Rhentu llungopiwr | 1528 | 259.32 |
| Canda Copiers | Taliadau llungopio | 1529 | 212.44 |
| Highline Electrical Ltd | Profion straen ar gyfer bolltau (goleuadau) | 1530 | 825.77 |
| Pottles Premier Plants Ltd | Planhigion hydref/gaeaf | 1531 | 1,206.00 |
| NMWATC | Prydau bwyd ar gyfer 3 yn mynychu cyfarfod ar 21/10/22 | 1532 | 63.00 |
| Lawnscience | Triniaeth yn y Gerddi Coffa | 1533 | 40.00 |
| GoToMyPC | Tanysgrifiadau blynyddol ar gyfer 4 defnyddiwr (staff) | 1534 | 1,862.96 |
| Y Cyngh D. L. King | Treuliau Maer Hydref 2022 | 1535 | 321.10 |
| Gunsmoke Communications | Gwaith golygyddol ar gyfer Rhodio'r Rhyl | 1536 | 2,000.00 |
| Amazon | Papurach | 1537 | 479.01 |
| Theatr Fach y Rhyl | 2 docyn ar gyfer digwyddiad 18/11/22 | 1538 | 24.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£7,293.60** |

**Taliadau Brys:** Dim

**Taliadau Cerdyn:** Pedwar taliad a wnaed i GoToMyPC (oll dan rif taleb1534) ar gyfer y taliadau blynyddol i hwyluso gweithio o gartref / mynediad at systemau i staff.

Gwnaed taliadau hefyd ar gyfer rhifau taleb1537 a1538

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ddiwygiedig i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**75. CYNGOR TREF Y RHYL – CYNLLUN HYFFORDDI AELODAU A STAFF**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â'r ddyletswydd statudol newydd ar Gynghorau Tref a Chymuned dan

Adran 67 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), 2021, i gynhyrchu cynllun arlein ar ôl pob etholiad llawn o'r Cyngor.

Gofynnodd Clerc y Dref dri chwestiwn i'r aelodau.

a) A yw'r Cyngor yn credu bod gan ei staff y cymwysterau addas i gyflawni ei rwymedigaethau statudol a gweithedu'n effeithiol?
b) A oes gan y Cyngor (Aelodau Etholedig) wybodaeth a phrofiad gyfunol ddigonol i allu gweitherdu'r effeithiol ar ôl etholiadau mis Mai 2022?
c) A oes gan aelodau unigol anghenion hyfforddi penodol yr hoffent i'r Cyngor ddelio gyda nhw?

Ar ôl peth trafosaeth ***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ebsotio'r holl aelodau i ofyn pa hyfforddiant y buasent yn teimlo y byddent yn elwa ohono (os unrhyw hyfforddiant), a hefyd gofyn yr un cwestiwn i'r aelodau staff ac adrodd yn ôl.*

## 76. SOUND RADIO WALES

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn gwahoddiad gan yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) sy'n gwasanaethu Gogledd-ddwyrain Cymru ac sydd wedi eu lleoli yn Nhowyn yng Nghonwy.

Roedd y gwahoddiad ar gyfer y Maer ond yn anffodus nid oedd hi na'r Dirprwy Faer ar gael i fynychu felly cynigir y gwahoddiad i unrhyw aelod arall a oedd yn gallu mynychu ar ran y Maer.

***PENDERFYNWYD*** *gwrthod y gwahoddiad yn gwrtais.*

## 77. EITEM YCHWANEGOL: GORYMDAITH GWYL Y NADOLIG, CONWY

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn gwahoddiad gan Gyngor Tref Conwy i'r Maer fynychu'r uchod, ond yn anffodus nid yw hi na'r Dirprwy Faer yn gallu mynd, felly unwaith eto estynnwyd y gwahoddiad i unrhyw aelod arall fynychu ar ran y Maer.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cynghorydd A. Walker yn mynychu.*

## 78. EITEM ER GWYBODAETH: SYMIAU NEILLTUEDIG CYNGOR SIR DDINBYCH

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn ebost mewn perthynas â'r uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dweud mai lefel y Symiau Neilltuedig a oedd ar gyfer y Rhyl yw £11,907.91, er gwybodaeth i'r aelodau, os oeddynt yn gwybod am unrhyw brosiectau a hoffai wneud cais.

## 79. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 80. Y SEFYDLIAD – GWEITHREDU DYFARNIAD COSTAU BYW

Adroddodd Clerc y Dref bod cytundeb wedi ei wneud ar gynnydd o rhwng 3.5% a 7% yn dibynnu ar ble roedd pob aelod staff ar bwynt y raddfa gyflog.

Er nad oedd y Cyngor Tref wedi cyllidebu ar gyfer dyfarniad cyflog dros 3%, gellid cynnwys y gost ychwanegol o fewn arbedion presennol y gyllideb

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r dyfarniad cyflog, wedi ei ôl-ddyddio o fis Ebrill April 2022.*
**[Daganodd y Clerc a'r Dirprwy Glerc fuddiant personol a rhagfarnus yn yr eitem uchod, ond dywedwyd wrthynt am aros yn y Siambr gan y Cadeirydd i ateb cwestiynau gan yr Aelodau os oedd angen]**

**81. IS-BWYLLGOR ASESU RISG**

Adroddodd Clerc y Dref am bryder a godwyd gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg a oedd yn gadael y Cyngor Tref ychydig yn agored o ran honiadau a wnaed yn y dyfodol yn erbyn y Cyngor Tref a/neu swydd y Maer, yn enwedig o gwmpas y cyfyrngau cymdeithasol.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Is-bwyllgor Asesu Risg yn cael awdurdod dirpwyedig i ofyn am gyngor cyfreithiol i gynorthwyo gydag unrhyw faterion yn ybdyfodol.*

**82. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ……………….………..